



HAVE  
YOUR DWEUD  
SAY EICH  
DWEUD

# DWEUD EICH DWEUD!


## ar foderneiddio Gofal Preswyl i bobl hŷn

Mae'r Ymgynghoriad yn dechrau ar: **30 MEDI 2019**  
ac yn **dod i ben am 5pm ar: 20 RHAGFYR 2019**

Am ragor o wybodaeth ewch i : [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghori](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghori)  
lle bydd modd i chi gael manylion am y cynigion. Os oes angen rhagor o  
wybodaeth neu gopi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch â:

 **01443 425014**

 **[gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk](mailto:gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk)**

 **RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS,**  
Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach, CF40 2XX



# 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.  
Fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Os oes angen ein gwasanaeth eirioli arnoch chi, rhowch wybod i ni.



**RHONDDA CYNON TAF**

# Cyflwyniad

Mae Rhondda Cynon Taf yn adolygu'r modd y mae'n darparu gofal preswyl mewn ymateb i ofynion a dyheadau newidiol preswylwyr. Mae wedi cynnal ymgynghoriad ar yr opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol fel rhan o'r broses o foderneiddio'r gofal mae'n ei gomisiynu ar gyfer pobl hŷn.

Gyda budd yr adborth o gam cychwynnol yr ymgynghoriad, mae'r Cyngor wedi cychwyn cyfnod pellach o 12 wythnos o ymgynghori a bydd yn holi'r cyhoedd, staff a phreswylwyr cartrefi gofal ynglŷn â'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer darparu cartrefi gofal preswyl y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn golygu bod y Cyngor yn cadw lefel sylweddol o ddarpariaeth cartrefi gofal preswyl mewnol, bydd rhagor o fanylion am hyn yn ddiweddarach yn y llyfryn. Bydd hyn yn canolbwyntio ar anghenion cymhleth, ail-gartrefu a gofal seibiant sy'n seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r angen sy'n cael ei ystyried yn ofynnol ym mhob un o ardaloedd daearyddol Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái.

**Manteisiwch ar y cyfle yma i ddweud eich dweud.**

## **NEGSEUON ALLWEDDOL**

- Dydy hi ddim yn bosibl i'r Cyngor ymateb i heriau'r dyfodol na diwallu anghenion a disgwyliadau cenedlaethau hŷn y dyfodol gyda'n trefniadau presennol ar gyfer gofal preswyl.
- Byddai'r cynnig sydd dan ymgynghoriad yn golygu bydd y Cyngor yn parhau i arwain wrth ddarparu gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf.
- Er bod yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn cynnwys cynlluniau i ddatgomisiynu rhai cartrefi gofal, mae'n cynnig y dylai'r awdurdod lleol gadw nifer sylweddol o gartrefi sy'n eiddo iddo.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod mynediad lleol at ddarpariaeth fewnol ar gael i bawb sy'n ei ddewis ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Dangosodd cam cyntaf yr ymgynghoriad bod cefnogaeth glir i'r Cyngor ganolbwyntio ar ddarparu ystod well o wasanaethau i'r rheini ag anghenion mwy cymhleth.
- Mae gan y cynigion yma'r potensial i wneud y mwyaf o'r cyfle i genedlaethau hŷn fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.
- Mae darparu gwell cyfleusterau gofal ar gyfer cenedlaethau newydd o bobl hŷn, trwy gymryd camau rhagweithiol nawr i ymateb i anghenion y dyfodol, yn hanfodol ar gyfer y cynigion. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau arfaethedig y Cyngor i adeiladau nifer o gynlluniau cartrefi gofal ychwanegol.
- Byddai unrhyw gartref/cartrefi sy'n cael eu datgomisiynu o dan y cynnig yn cael ei ddatgomisiynu fesul cam yn dilyn asesiad o anghenion pob un o'r preswylwyr ac ar ôl ystyried os oes llety amgen ar gael mewn cartrefi gofal neu os bydd cynlluniau gofal ychwanegol yn agor yn fuan.
- Bydd y Cyngor yn gofalu na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn digwydd ymhlith y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn ein cartrefi gofal preswyl yn dilyn yr ymgynghoriad.

## Cefndir

Ar 21 Tachwedd 2018, cytunodd y Cyngor i ymgynghori â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u cynhalwyr, staff a rhanddeiliaid eraill ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer darparu cartrefi gofal preswyl y Cyngor yn y dyfodol. Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi'r adborth o'r ymgynghoriad hwnnw ynghyd â gwybodaeth ychwanegol bellach i'r Cabinet ym mis Medi 2019 i'w ystyried.

Mae Swyddogion y Cyngor o'r farn dydy gwneud dim ddim yn ymarferol. Heb archwilio'r potensial ar gyfer ail-ddylunio'r ffordd y mae gofal i oedolion yn cael ei ddarparu, fydd hi ddim yn bosibl cwrdd â disgwyliadau newidiol pobl a'r galw cynyddol ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'n hanfodol, yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bod y Cyngor yn parhau i leihau dibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol fel gofal cartref preswyl ac yn symud i fodel sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, sy'n hyrwyddo dewis, annibyniaeth a lles.

Mae pobl yn byw yn hirach gyda mwy o gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau ac maen nhw eisiau rhagor o ddewis ynglŷn â sut maen nhw'n cael gofal. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ystod ehangach o opsiynau ar gyfer cefnogi pobl ac yn arbennig y rhai ag anghenion gofal cymhleth, gan gynnwys dementia.

Mae'r galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu, ond mae'r galw am ofal preswyl yn lleihau wrth i ofal gael ei ddarparu fwyfwy yng nghartrefi pobl ac yn y cymunedau lle maen nhw'n byw. Mae'r dystiolaeth a'r rhagolygon yn dangos y bydd angen llai o ofal preswyl yn y dyfodol, gan y bydd rhagor o bobl yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cynlluniau gofal ychwanegol.

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw at y ffaith bod gormod o ddarpariaeth o ofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf ac mae darpariaeth leol ddigonol o'r math a'r ansawdd gofynnol yn Rhondda Cynon Taf i ddiwallu anghenion. Serch hynny, byddai cadw rhywfaint o gartrefi gofal preswyl mewnol yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gynnal cynnig mewnol yn y farchnad gofal preswyl leol.

## Cartrefi Gofal Preswyl - Darpariaeth A Defnydd

Mae 36 cartref gofal yn Rhondda Cynon Taf sy'n weithredol. Mae 11 ohonyn nhw'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor. Mae yna 1429 o welyau cartrefi gofal cofrestredig.

Mae gan y Cyngor 333 o welyau cofrestredig, ac mae 145 o'r rhain ar gyfer pobl â dementia.

Ar gyfartaledd, roedd cartrefi gofal preswyl y Cyngor (Awst 2019) yn 77% llawn. Mae'r tabl isod yn dangos pa mor llawn oedd cartrefi gofal preswyl y Cyngor ym mis Awst 2019 o gymharu â mis Hydref 2018 a faint o lefydd gwag oedd ynddyn nhw:

	Gwelyau Cofrestredig	Gwelyau Gwag (Awst 2019)	% Sy'n cael eu defnyddio (Awst 2019)	Gwelyau Gwag (Hydref 2018)	% Sy'n cael eu defnyddio (Hydref 2018)
Bronllwyn	12	1	92%	-	100%
Tŷ Pentre	29	7	76%	6	75%
Ystrad Fechan	24	2	92%	2	92%
Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House)	26	7	73%	1	96%
Cwrt Clydach	35	9	74%	4	89%
Dan-y-Mynydd	30	8	73%	6	80%
Tegfan	46	5	89%	2	96%
Troed-y-rhiw	26	5	81%	1	96%
Cae Glas	39	13	67%	11	72%
Garth Olwg	30	6	80%	2	93%
Parc Newydd	36	13	64%	2	94%
<b>Cyfanswm</b>	<b>333</b>	<b>76</b>	<b>77%</b>	<b>37</b>	<b>88%</b>

Mae'r farchnad allanol yn darparu 449 o welyau preswyl (gan gynnwys oddeutu 203 o welyau ar gyfer pobl sydd â dementia) a 647 o welyau nyrsio (gan gynnwys oddeutu 131 o welyau ar gyfer pobl sydd â dementia) mewn 25 o gartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio.

Mae'n werth nodi bod bron i 60% o'r holl welyau mewn cartrefi gofal preswyl (ac eithrio cartrefi gofal nyrsio) eisoes yn cael eu darparu gan y farchnad allanol.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y lleoedd gwag a pha mor llawn oedd cartrefi gofal yn y farchnad allanol ym mis Awst 2019 o gymharu â mis Hydref 2018.

Darpariaeth Allanol	Gwelyau Cofrestredig	Gwelyau Gwag (Awst 2019)	% Sy'n cael eu defnyddio (Awst 2019)	Gwelyau Gwag (Hydref 2018)	% Sy'n cael eu defnyddio (Hydref 2018)
Gwelyau Cartrefi Preswyl	449	17	96%	28	94%
Gwelyau Cartrefi Nyrsio	647	29	96%	51	92%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1096</b>	<b>46</b>	<b>96%</b>	<b>79</b>	<b>93%</b>

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad pellach o'r % o welyau mewn cartrefi gofal sy'n cael eu defnyddio a'r lefelau o welyau gwag ar draws y farchnad gofal preswyl a'r farchnad gofal nyrsio.

	Gwelyau'r Cyngor		Gwelyau Allanol	
	% Sy'n cael eu defnyddio	Lleoedd Gwag	% Sy'n cael eu defnyddio	Lleoedd Gwag
<b>Awst 2019</b>	<b>77%</b>	<b>76</b>	<b>96%</b>	<b>46</b>
<b>Mawrth 2019</b>	<b>79%</b>	<b>71</b>	<b>93%</b>	<b>81</b>
<b>Mawrth 2018</b>	<b>83%</b>	<b>57</b>	<b>88%</b>	<b>135</b>
<b>Mawrth 2017</b>	<b>89%</b>	<b>27</b>	<b>88%</b>	<b>67</b>
<b>Mawrth 2016</b>	<b>98%</b>	<b>8</b>	<b>92%</b>	<b>75</b>

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod gor-ddarpariaeth o welyau mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd ac mae'n annhebygol y bydd y galw cyffredinol am welyau mewn cartrefi gofal yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos.

## **CARTREFI GOFAL PRESWYL - RHAGOR O WYBODAETH**

### **Galw a Chyflenwad**

Mae gwaith wedi'i wneud i gael gwell dealltwriaeth o'r galw sy'n cael ei ragweld am dai gofal ychwanegol a ddarpariaeth cartrefi gofal yn Rhondda Cynon Taf o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio model o'r enw "Rhagor o Ddewis, Rhagor o Lais" i wneud hyn.

### **Gofal Ychwanegol**

Mae cartrefi gofal ychwanegol yn darparu llety modern a gofal 24 awr i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau newidiol y boblogaeth hŷn sy'n tyfu, gan roi'r cyfle iddyn nhw fyw bywydau mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae cartrefi gofal ychwanegol yn rhoi dewis gwahanol i ofal preswyl, gofal nyrsio, a chartrefi lloches. Ei nod yw darparu 'cartref am oes' i lawer o bobl hyd yn oed os yw eu hanghenion gofal yn newid dros amser.

Ar hyn o bryd mae un cynllun gofal ychwanegol (40 fflat) ar gael yn Rhondda Cynon Taf yn Nhŷ Heulog yn Nhonysguboriau. Rydyn ni'n disgwyl i ail gynllun (40 fflat) agor yn Aberaman eleni.

Mae nifer o ddatblygiadau gofal ychwanegol ar y gweill a fydd yn cynyddu'r cyflenwad dros y blynyddoedd i ddod yn Rhondda Cynon Taf. Yn ystod 2021, rydyn ni'n disgwyl bydd 60 o fflatiau ychwanegol pan fydd cynllun gofal ychwanegol yn agor ym Mhontypridd. Yn ystod 2022, mae disgwyl bydd datblygiad arall yn y Porth fydd yn darparu 60 o fflatiau. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ddatblygiad yn Nhreorci fydd yn darparu 60 o fflatiau yn 2023 a datblygiad yn Aberpennar yn 2025 fydd yn darparu 40 o fflatiau.

Erbyn 2025, yn seiliedig ar gynlluniau datblygu cyfredol, bydd Rhondda Cynon Taf yn darparu 300 o welyau gofal ychwanegol. Rydyn ni'n rhagweld bydd y galw am ofal ychwanegol yn parhau i gynyddu a bydd yn bwysig cynnal momentwm datblygiad cyfredol y farchnad.

### **Cartrefi Gofal**

Ar hyn o bryd mae 1429 o leoedd mewn cartrefi gofal ar gael yn Rhondda Cynon Taf. Mae 782 o'r rhain mewn cartrefi preswyl a 647 mewn cartrefi nyrsio.

Yn ôl y model "Rhagor o Ddewis, Rhagor o Lais" ar gyfer rhagweld anghenion y dyfodol, fydd dim digon o leoedd mewn cartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, er bod anawsterau achlysurol yn dod o hyd i leoedd i bobl mewn cartrefi gofal lleol, yn enwedig o ran gofal nyrsio ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl, does dim diffygion sylweddol yn y ddarpariaeth yn gyffredinol.

Mae yna fwriad strategol clir hefyd i symud i ffwrdd o ofal preswyl ac i wasanaethau cartrefi gofal ganolbwyntio ar roi cymorth i bobl ag anghenion mwy cymhleth. O'r herwydd, mae modd ystyried bod rhagdybiaethau rhagolwg "Rhagor o Ddewis, Rhagor o Lais" yn ormodol, o ystyried cydbwysedd cyfredol y galw a'r chyflenwad yn Rhondda Cynon Taf.

Bydd y datblygiad arfaethedig o ran gofal ychwanegol sy'n cael ei grybwyll uchod yn rhoi rhagor o ddewis i bobl sydd angen lefelau cynyddol o ofal personol. Mae disgwyl bydd hyn yn lleihau'r galw am ofal preswyl.

Does dim disgwyl i'r nifer o leoedd gofal ychwanegol newydd gyrraedd 300 nes 2025, felly fydd y lleihad yn y galw am leoedd preswyl ddim yn cael ei gyflawni nes y flwyddyn honno.

Gan ystyried yr uchod, mae'r gwaith modelu wedi dangos y gellid disgwyl i'r galw am welyau cartrefi gofal preswyl ar draws Rhondda Cynon Taf ostwng i 676 o welyau erbyn 2025. Bydd ymrwymiad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth gofal ychwanegol yn allweddol i symud y cydbwysedd i ffwrdd o ofal preswyl sefydliadol. Gallai hyn greu gwarged o 106 o leoedd gofal preswyl gan ganiatáu i rai o gartrefi gofal preswyl presennol y Cyngor gael eu cau oherwydd y gwarged rhagamcanedig mewn lleoedd gofal preswyl erbyn 2025.

Mae'n werth nodi hefyd y gellid disgwyl i'r galw am leoedd mewn cartrefi gofal nyrsio godi i 858 erbyn 2025. Bydd hyn yn arwain at ddiffyg o 211 lle mewn cartrefi gofal nyrsio a bydd hi'n bwysig i gynyddu'r capasiti yn y farchnad yma.

## **Amgylchedd Ffisegol y Cartrefi Gofal**

Er bod safon y gofal gan staff cartrefi gofal mewnol y Cyngor yn dda, mae'r adeiladau'n hen ffasiwn a dydy'r cyfleusterau ddim yn cyrraedd safonau modern. Adeiladwyd y cartrefi dros 30 mlynedd yn ôl a doedden nhw ddim i fod i fodloni disgwyliadau cyfredol llety ac fe'u hadeiladwyd ar gyfer cenhedlaeth wahanol o bobl hŷn i rai heddiw. Mae cartrefi gofal pwrpasol modern wedi'u cynllunio i fod yn addas ar gyfer pobl sydd â dementia a bod â safon gofod fwy i gefnogi anghenion symudedd / codi. Mae ganddyn nhw hefyd gyfleusterau en-suite, felly mae modd i bobl ddefnyddio'r toiled eu hunain. Mae hyn yn amlwg yn bwysig er mwyn cynnal ymdeimlad rhywun o urddas ac annibyniaeth.

Byddai unrhyw waith ailddatblygu i'r adeiladau presennol angen buddsoddiad sylweddol. Byddai hyn yn golygu y gallai llai o bobl gael eu cefnogi yng nghartrefi mewnol y Cyngor. Byddai'n rhaid i rai pobl sy'n byw yn y cartrefi yma ar hyn o bryd symud i lety amgen. Byddai eraill yn profi aflonyddwch wrth i'r gwaith gael ei gwblhau gan ei gwneud hi'n angenrheidiol i adleoli preswylwyr dros dro gan y byddai natur a chwmpas y gwaith yn golygu bod angen cau'r cartref dros dro.

## **Darpariaeth a Dewis Lleol**

Mae'n bwysig bod dewis yn lleol i'r rheini sydd am aros yn yr ardal felly cynhaliwyd asesiad o'r farchnad, yn seiliedig ar argaeledd darpariaeth cartrefi gofal o fewn 5 milltir i bob un o gartrefi gofal preswyl mewnol y Cyngor. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod darparwyr cartrefi gofal eraill yn lleol o fewn radiws o 5 milltir i gartrefi gofal preswyl mewnol y Cyngor sy'n gallu rhoi cymorth i bobl sydd angen gofal preswyl o ansawdd da.

Mae'n werth nodi hefyd, ac eithrio Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House) (5.2 milltir i ffwrdd) bod holl gartrefi gofal preswyl mewnol y Cyngor o fewn radiws o 5 milltir i gynllun gofal ychwanegol presennol neu arfaethedig.

## **MODEL GWASANAETH AR GYFER CARTREFI GOFAL PRESWYL Y CYNGOR YN Y DYFODOL**

### **Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio**

**Mae'r Cyngor yn cadw lefel y ddarpariaeth o dai gofal preswyl, fel sy'n cael ei nodi isod, gan ganolbwyntio ar anghenion cymhleth, ailalluogi a gofal seibiant sy'n seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r angen sy'n cael ei ystyried yn ofynnol ym mhob un o ardaloedd daearyddol Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái.**

Byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu i'r Cyngor ddarparu model sy'n galluogi pobl i gynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf, i aros yn eu cartref eu hunain am gyfnod hirach a diwallu anghenion oedolion sy'n agored i niwed yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, wrth gyflawni'r gwelliannau o ran effeithiolrwydd gwasanaeth.

Mae lefel o risg wrth gyflawni'r model arfaethedig. Mae'n bosibl bydd effaith negyddol ar rai preswylwyr oherwydd bydd angen eu symud o'u cartrefi gofal preswyl Cyngor presennol. Serch hynny, mae modd lliniaru'r risg yma gymaint â phosibl, er enghraifft, trwy sicrhau:

- Ei fod yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o flynyddoedd a bydd y penderfyniad i ddatgomisiynu cartref gofal y Cyngor, yn dilyn ymgynghoriad a chytundeb y Cabinet, yn dibynnu ar:
  - dod o hyd i gartref gofal preswyl amgen neu leoliad mewn cartref gofal ychwanegol ar gyfer preswylwyr parhaol; a
  - bod datblygiadau cynlluniau gofal ychwanegol lleol yn agor yn Aberaman, Pontypridd, y Porth, Treorci ac Aberpennar;
- gweithredu prosesau asesu cadarn a fyddai'n sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio yn cael cymorth, cyn ac ar ôl unrhyw symud;
- fydd preswylwyr cartrefi gofal preswyl y Cyngor ddim dan anfantaais ariannol o ganlyniad i weithredu unrhyw gynnig;
- fydd dim angen i breswylwyr symud o dai gofal y Cyngor yn syth.

### **Gwerthuso**

Gan ystyried yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer darparu cartrefi gofal preswyl y Cyngor a'r wybodaeth ychwanegol sydd ar gael, cafodd gwerthusiad ei gynnal i bennu pa gartrefi gofal preswyl y Cyngor na fydd eu hangen mwyach ac mae modd eu datgomisiynu.

Cafodd matrices gwerthuso ei ddefnyddio i asesu pob cartref gofal preswyl y Cyngor yn erbyn y meini prawf canlynol:

### **Addasrwydd yr adeilad**

- Asesiad cyfredol o gydymffurfiaeth yr adeilad
- Potensial i ailddatblygu'r cartref presennol i fodloni safonau adeiladu newydd Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer cartrefi



## Ardaloedd daearyddol

- Lleoliad
- Argaeledd darpariaeth breswyl fewnol yn yr ardal
- Argaeledd darpariaeth breswyl amgen yn yr ardal
- Argaeledd darpariaeth tai gofal ychwanegol yn yr ardal

## Lefel bresennol y defnydd

- Lefel bresennol deiliadaeth
- Pa mor dda mae'r cartref gofal yn diwallu anghenion y gwasanaeth arfaethedig eisoes

## Cost gyfredol y lleoliad

- Cost wirioneddol y Cyngor fesul gwely sy'n cael ei ddefnyddio bob wythnos

Rhoddwyd pwysiad i bob elfen o'r meini prawf sefydledig yn seiliedig ar ei arwyddocâd cyffredinol canfyddedig i'r cynnig. Dyfarnwyd sgôr o hyd at 5 i bob cartref gofal yn erbyn yr elfennau meini prawf unigol, yna cafodd y sgôr yma ei phwysoli'n briodol. Gallai pob cartref gael sgôr wedi'i phwysoli o hyd at 190. Po uchaf yw'r sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli sy'n cael ei chyflawni gan gartref gofal penodol, y mwyaf tebygol fyddai hi o gyflawni'r model gwasanaeth arfaethedig.

Cartref Gofal	Sgôr yn y Gwerthusiad	Opsiwn sy'n cael ei Argymell
Bronllwyn	86	Datgomisiynu'r cartref pan fydd lleoliadau amgen addas ar gael yn yr ardal - tua Haf 2020.
Garth Olwg	106.00	Datgomisiynu'r cartref pan fydd cynllun gofal ychwanegol Pontypridd yn agor - tua Haf 2021.
Ystrad Fechan	110.00	Datgomisiynu pan fydd cynllun gofal ychwanegol Treorci'n agor - tua yn gynnar yn 2023.
Dan-y-Mynydd	110.5	Datgomisiynu'r cartref pan fydd cynllun gofal ychwanegol y Porth yn agor - tua diwedd 2022.
Cwrt Clydach	112.00	Cadw
Troed-y-rhiw	115	Cadw
Tŷ Pentre	117.00	Cadw
Cae Glas	125	Cadw
Parc Newydd	125	Cadw
Tegfan	139.00	Cadw
Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House)	148.50	Cadw

Dyma ganlyniad y gwerthusiad:

Mae dadansoddiad manwl o'r gwerthusiad ar gael yn [www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori) neu drwy wneud cais amdano.

## **Cartrefi gofal sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer eu cadw**

- Canolfan Adnoddau Cwrt Clydach, Trealaw
- Canolfan Adnoddau Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House), Glynrhedynog
- Cartref Gofal Preswyl Tŷ Pentre, Pentre
- Canolfan Adnoddau Tegfan, Trecynon
- Cartref Gofal Preswyl Troed-y-rhiw, Aberpennar
- Canolfan Adnoddau Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- Cartref Gofal Preswyl Parc Newydd, Tonysguboriau.

## **Cartrefi gofal sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer datgomisiynu**

- Cartref Gofal Preswyl Bronllwyn, Y Gelli
- Cartref Gofal Preswyl Ystrad Fechan, Treorci
- Cartref Gofal Preswyl Dan-y-Mynydd, y Porth
- Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.

Byddai datgomisiynu unrhyw gartref, a'i gymryd allan o ddefnydd, yn cael ei wneud fesul cam yn dibynnu ar yr amgylchiadau cyffredin ar y pryd mewn perthynas â phob cartref unigol e.e. pan ddaw lleoliadau gofal amgen ar gael neu pan fydd datblygiadau gofal ychwanegol yn agor. Mae'n bwysig nodi hefyd mae'n bosibl bydd rhai preswylwyr eisiau adleoli i gartref gofal arall gan fod ffactorau gwahanol eraill yn pennu eu dewis o gartref gofal.

## **BETH SY'N DIGWYDD NESAF?**

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor heb wneud unrhyw benderfyniad heblaw'r penderfyniad i ddechrau ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad yn para 12 wythnos, felly mae digon o amser i bobl gael dweud eu dweud a chynnig opsiynau amgen os hoffon nhw wneud hynny. Bydd y sawl fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol a'u cynhalwyr yn cael cynnig cefnogaeth i sicrhau eu bod yn cael cyfle i wybod beth yw pwrpas y cynigion a chael cyfle i wneud sylwadau amyn nhw. Byddwn ni'n ystyried pob barn cyn i adroddiad arall gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

# HOLIADUR - Gofal Preswyl

Mae'r holiadur yma yn gofyn ichi feddwl am ddarpariaeth Gofal Preswyl Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'n rhan o'r gwaith i gynllunio ar gyfer dyfodol y gofal hirdymor y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu i bobl hŷn. Hoffen ni eich barn chi ar y cynnig sy'n cael ei ffafrio ar gyfer dyfodol darpariaeth fewnol y Cyngor.

Darllenwch y manylion llawn yn y pecyn gwybodaeth cyn llenwi'r holiadur.

## Rhaid dychwelyd pob holiadur wedi'i lenwi erbyn 5pm ddydd Gwener 20 Rhagfyr 2019

Sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

Sail gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer prosesu eich gwybodaeth o dan y gyfraith diogelu data yw ei rwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Mae'r ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol a byddan nhw'n ymddangos yn ddienw yn yr adroddiad terfynol. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar Hysbysiadau Preifatrwydd y Gwasanaeth Ymgynghori a'r Gwasanaeth Gofal Preswyl (Oedolion) a hysbysiad Diogelu Data'r Cyngor, neu cysylltwch â'r Garfan Ymgynghori - [ymgynghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:ymgynghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

### Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

Mae'r Cyngor yn cadw lefel y ddarpariaeth o dai gofal preswyl, fel sy'n cael ei nodi isod, gan ganolbwyntio ar anghenion cymhleth, ailalluogi a gofal seibiant sy'n seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r angen sy'n cael ei ystyried yn ofynnol ym mhob un o ardaloedd daearyddol Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf- elái:

## CARTREFI GOFAL SYDD WEDI CAEL EU CYNNIG AR GYFER EU CADW

- Canolfan Adnoddau Cwrt Clydach, Trealaw
- Canolfan Adnoddau Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House), Glynrhedynog
- Cartref Gofal Preswyl Tŷ Pentre, Pentre
- Canolfan Adnoddau Tegfan, Trecynon
- Cartref Gofal Preswyl Troed-y-rhiw, Aberpennar
- Canolfan Adnoddau Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- Cartref Gofal Preswyl Parc Newydd, Tonysguboriau

## CARTREFI GOFAL SYDD WEDI CAEL EU CYNNIG AR GYFER DATGOMISIYNU

- Cartref Gofal Preswyl Bronllwyn, Y Gelli
- Cartref Gofal Preswyl Ystrad Fechan, Treorci
- Cartref Gofal Preswyl Dan-y-Mynydd, y Porth
- Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg, Pentre'r Eglwys

**Q1.** Ydych chi'n cytuno â'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio?

**Ydw**  (cytuno)      **Nac ydw**  (anghytuno)      **Ddim yn gwybod**

Rhowch unrhyw sylwadau i gefnogi eich ateb:

.....

.....

.....

.....

.....

**Q2.** Oes gyda chi unrhyw awgrymiadau neu opsiynau amgen eraill? (Rhowch eich rhesymau).

.....

.....

.....

.....

.....

**Q3.** Fyddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn effeithio arnoch chi neu eich teulu?

**Byddai**       **Na fyddai**

Os 'byddai', esboniwch pa effaith fyddai'n ei chael arnoch chi neu eich teulu.

.....

.....

.....

.....

.....

**Q4.** Ticiwch isod os yw'ch barn chi'n ymwneud ag unrhyw gartref gofal preswyl.

- Parc Newydd, Tonysguboriau
- Tŷ Pentre, Y Pentre
- Tegfan - Aberdâr
- Troed-y-Rhiw, Aberpennar
- Ystrad Fechan - Treorci
- Bronllwyn, Y Gelli
- Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- Cwrt Clydach, Trealaw
- Dan-y-Mynydd, Y Porth
- Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House), Glynrhedynog
- Garth Olwg, Pentre'r Eglwys

**Q5.** Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf a ddefnyddiodd y Cyngor i benderfynu cefnogi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio?

(Addasrwydd yr adeiladau / ardal ddaearyddol / lefel gyfredol o ddefnydd / cost gyfredol y lleoliad)

**Ydw**  (cytuno)      **Nac ydw**  (anghytuno)      **Ddim yn gwybod**

Os 'nac ydw', beth ddylai'r Cyngor fod wedi'i ystyried?

.....

.....

.....

.....

.....

**Q6.** Ydych chi'n:

- Preswlydd mewn cartref gofal preswyl
- Perthynas / Partner / Ffrind preswlydd mewn cartref gofal preswyl sy'n cael ei redeg gan y Cyngor
- Eiriolwr dros breswlydd mewn cartref gofal preswyl sy'n cael ei redeg gan y Cyngor
- Aelod o'r cyhoedd
- Aelod o staff
- Arall (*nodwch*): .....

**Q7.** Côd post.....

**Q8.** O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Mae'r cwestiwn yma'n ddewisol. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma, edrychwch ar hysbysiad preifatrwydd 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' ar wefan y Cyngor.

Sut byddai'r cynnig yma yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:  
Rhywedd, Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd, Rhywioldeb, Crefydd / Cred, Hunaniaeth o ran rhywedd, Perthynas, Beichiogrwydd, Dewis iaith?

.....  
.....  
.....  
.....  
.....

**Q9.** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer manyleb safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. O ganlyniad, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i edrych ar sut mae ei benderfyniadau'n effeithio ar y Gymraeg.

Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Gymraeg (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?

.....  
.....  
.....  
.....  
.....

Ydych chi'n **fodlon i ni gysylltu â chi** er mwyn trafod eich ymateb i'r arolwg yma?  
Os felly, rhowch eich manylion isod:

Enw: .....  
E-bost/Rhif ffôn: .....

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.**

**Cliciwch ar Cyflwyno/Submit i gwblhau'r holiadur ar-lein. Os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch i:**

**Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS,**  
Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori  
Y Pafiliynau,  
Cwm Clydach,  
Tonypandy,  
CF40 2XX

Neu, anfonwch eich barn gyffredinol aton ni mewn ebost:  
**GofalPreswyl@rhondda-cynon-taf.gov.uk**